DISGRIFIAD SWYDD

TEITL SWYDD: Swyddog Menter

ATEBOL I: Pennaeth Menter

ORIAU: 16 awr yr wythnos

CYFLOG: £19,600 pro rata

Diben y Swydd

Rôl newydd gyffrous a fydd yn sicrhau bod Age Connects Morgannwg yn cyflawni ei nodau a'i amcanion cynhyrchu incwm drwy gymryd rôl arweiniol yn y gwaith o gydlynu gweithgareddau'r fenter. Gan weithio gyda'r Pennaeth Menter, bydd y rôl yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid i gynyddu cynaliadwyedd y sefydliad a lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid grant.

Bydd y swydd yn cynnwys pedair elfen:

Gweithredol

Sicrhau bod yr holl weithgareddau cynhyrchu incwm yn rhedeg yn effeithiol ac yn broffidiol yn unol â gwerthoedd a chenhadaeth y sefydliad.

Cynorthwyo'r Pennaeth Menter i ddatblygu a darparu cyfleoedd newydd i gynhyrchu incwm.

Gweithio gyda phob tîm o fewn y sefydliad i ganfod cyfleoedd newydd ac i elwa arnynt.

Cysylltu'n hyderus â chwmnïau a sefydliadau i hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cynhyrchion sydd ar gael.

Cyllid

Gweithio'n gyflym a chywir wrth drin a bancio arian parod a thaliadau cerdyn a phrosesau.

Sicrhau bod targedau a dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflawni ar gyfer pob gweithgaredd cynhyrchu incwm.

Gweithio gyda'r Pennaeth Menter i bennu cyllidebau a dangosyddion perfformiad allweddol bob blwyddyn ar gyfer gweithgareddau cynhyrchu incwm.

Gwasanaeth Cwsmeriaid

Sicrhau bod yr holl sefydliadau, y rhanddeiliaid, yr unigolion, y busnesau a'r ymwelwyr sy'n ymgysylltu ag Age Connects Morgannwg yn cael profiad cadarnhaol.

Bod yn wybodus er mwyn gallu ateb cwestiynau ac ymholiadau gan gwsmeriaid a rhoi gwybodaeth pan fo angen.

Ymdrin ag unrhyw faterion neu gwynion mewn modd priodol.

Gweithio gyda Phartneriaid

Hyrwyddo a meithrin perthynas gadarnhaol ag unigolion, rhanddeiliaid, sefydliadau, busnesau ac ymwelwyr.

Cefnogi'r Cynllun Cyfathrebu a Marchnata cynhyrchu incwm drwy fynd ati i hyrwyddo cyfleoedd newydd.

Cynnal perthynas o ddydd i ddydd gyda rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr Age Connects Morgannwg.

Mynd ati i hyrwyddo gweithgareddau cynhyrchu incwm i bartneriaid a busnesau a'r sefydliad mewn goleuni cadarnhaol.

Disgwylir i'r holl staff/gwirfoddolwyr sy'n gweithio i Age Connects Morgannwg ymateb yn briodol i unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch camdriniaeth/triniaeth amhriodol o oedolion bregus.
Bydd hyn fel arfer yn golygu rhybuddio eu rheolwr llinell. Mae amddiffyn oedolion agored i niwed yn gyfrifoldeb craidd bob amser.

Diffiniad bras yw'r uchod o gyfrifoldebau'r swydd. Nid yw'n ystyried pob agwedd ar y swydd y gallai fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd ei chyflawni. Mae hyblygrwydd yn hanfodol gan y bydd oriau gwaith deiliad y swydd yn cael eu pennu gan ofynion y busnes.

MANYLEB PERSON

TEITL Y SWYDD: Swyddog Menter

NODWEDDION	HANFODOL	MANTEISIOL
Gwybodaeth/ Addysg	Gwybodaeth eang am ddatblygiad Busnes/Menter neu gymhwyster Busnes/Menter.	
Sgiliau/ Galluoedd	Sgiliau rhyngbersonol ardderchog. Sgiliau rhyngweithio cadarn. Y gallu i ddehongli cyllidebau. Gallu delio â chwynion/adborth cwsmeriaid a rhoi newidiadau ar waith yn seiliedig ar adborth i wella gwasanaethau. Gallu gwneud penderfyniadau, cwblhau gwaith mewn pryd a gweithio heb oruchwyliaeth gan reoli ei amser ei hun yn effeithiol. Deall a chynnal cyfrinachedd bob amser.	Profiad cydnabyddedig o ddatblygu gweithgareddau Menter/Busnes.
Profiad	O leiaf 12 mis o brofiad o sefydlu a rhedeg Busnes neu Fenter Gymdeithasol.	Profiad o ddatblygu Mentrau Cymdeithasol.

Nodweddion Personol	Onestrwydd Ymrwymiad i'w ddatblygiad/datblygiad personol a phroffesiynol ei hun a datblygiad y rhai sy'n atebol yn uniongyrchol iddo/iddi Cyfrinachol a synhwyrol Cydwybodol Hyderus a phendant Gweithio ar y cyflymder angenrheidiol Canolbwyntio ar ganfod atebion Arloesol Llawn cymhelliant Rhagweithredol Gofalu am bobl Brwdfrydig – awyddus i wneud gwaith da a bob amser yn gwneud ei orau/gorau Cymryd cyfrifoldeb Gweithio'n ddigymell – ddim yn disgwyl am gyfarwyddiadau Ymdopi'n dda dan bwysau Ddim yn ofni gwneud camgymeriadau a bydd yn dysgu wrth eu gwneud	